Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Statws Cymhwyster Bagloriaeth Cymru: Crynodeb o'r arolwg o Sefydliadau Addysg Uwch

Tachwedd 2018

Mae'r **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** yn ymchwilio i statws cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Fel rhan o'i ymchwiliad, cynhaliodd y Pwyllgor arolwg byr i gasglu cymaint o safbwyntiau â phosibl gan brifysgolion yn y DU.

Gofynnodd yr arolwg i ba raddau y mae'r Dystysgrif Her Sgiliau (THS) yn sail ar gyfer unrhyw gynigion a wnaed i ddarpar fyfyrwyr. Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn a oedd Bagloriaeth Cymru yn cael unrhyw effaith ar byncia academaidd eraill, neu a oedd unrhyw fanteision neu anfanteision i fyfyrwyr o ran sgiliau addysg, cyflogaeth a bywyd.

Er y daeth 70 o ymatebion i law, roedd yn amlwg bod rhai ohonynt wedi'u llunio ar gam, ni roddwyd atebion yn rhai ohonynt neu roedd yr ymatebion yn flinderus. Roedd **35 o ymatebion** yn cynnwys enw'r sefydliad addysg uwch ynghyd ag un ymateb dienw gan brifysgol yng Nghymru. Mae'r wybodaeth yn y crynodeb hwn yn seiliedig ar y 34 o ymatebion hynny.

Dylid nodi bod yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg, ac eithrio un ymateb sefydliadol gan Brifysgol Caerdydd, gan aelodau unigol o staff yn y prifysgolion hynny ac nid yw'r safbwyntiau a fynegwyd yn adlewyrchu barn swyddogol y sefydliadau hynny.

Mae'r holl dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i ymgynghoriad llawn y Pwyllgor ar gael ar dudalen yr ymchwiliad ar y we. Ni chafwyd unrhyw ymatebion ffurfiol gan brifysgolion na'u cyrff ambarél cynrychioladol.

## Yr ymatebion a gafwyd

Cafwyd **un** ymateb gan **Brifysgol Caerdydd** ac roedd yn cynrychioli ei safbwynt fel sefydliad. Cafwyd **deg** ymateb gan aelodau unigol o staff mewn **prifysgolion yng Nghymru**, gan gynnwys dau ymateb gan aelodau unigol o staff ym Mhrifysgol De Cymru, dau ymateb gan aelodau unigol o staff ym Mhrifysgol Caerdydd ac ymateb dienw sydd ond yn nodi bod y brifysgol wedi'i lleoli yng Nghymru.

Cyflwynwyd **22** o ymatebion gan aelodau unigol o staff mewn **sefydliadau yn Lloegr** a **dau** gan aelodau unigol o staff mewn **sefydliadau yn yr Alban**.

Roedd **16** o'r 34 o ymatebion yn ymwneud â **phrifysgolion Grŵp Russell**. Roedd 15 ohonynt gan **aelodau unigol o staff** mewn prifysgolion **Grŵp Russell**, ac roedd un ohonynt gan Brifysgol Caerdydd **fel sefydliad**.

Mae rhestr o'r holl brifysgolion ble roedd yr aelodau unigol o staff a gyflwynodd ymatebion yn gweithio ynghlwm yn Atodiad A.

## Derbyn y Dystysgrif Her Sgiliau

Gofynnwyd i brifysgolion a oedd y Dystysgrif Her Sgiliau (THS) yn rhan o unrhyw gynigion i fyfyrwyr i sicrhau lle ar gwrs.

O'r ymatebion a ddaeth i law gan aelodau unigol o staff, roedd **32 yn dweud bod eu prifysgol yn derbyn y THS**. Roedd y ddau ymateb a nododd nad yw'r THS yn rhan o gynigion eu sefydliad gan aelodau unigol o staff  Goldsmiths, Prifysgol Llundain a Phrifysgol Caergrawnt. Roedd ymateb sefydliadol Prifysgol Caerdydd yn nodi ei bod yn derbyn y THS uwch ar gyfer pob adran academaidd ar yr un sail â Safon Uwch.

Nodwyd mewn wyth ymateb pellach nad oedd rhai adrannau yn y sefydliadau perthnasol yn derbyn y THS, sef:

- **Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Caerfaddon** – nid ar gyfer gwyddorau mathemategol. Derbynnir yr elfen THS yn yr un modd â Chymhwyster y

Prosiect Estynedig (CPE) (er bod trothwy gradd is ar gyfer Bagloriaeth Cymru). Mae adrannau eraill yn ei derbyn yn bennaf ar gyfer yr elfennau prosiect, sy'n llai perthnasol ar gyfer graddau mathemateg;

- **Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Birmingham** – nid ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth – mae angen tri chymhwyster Safon Uwch academaidd ar gyfer y pynciau hyn;
- **Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Caerefrog** – nid ar gyfer gwyddorau naturiol, sy'n gofyn am dri chymhwyster Safon Uwch mewn pynciau penodol. Ar gyfer meddygaeth, caiff y THS ei thrin fel cymhwyster sy'n gyfwerth â chymhwyster Safon Uwch Gyfrannol;
- **Aelod unigol o staff Queen Mary, Prifysgol Llundain** – nid ar gyfer y gyfraith, ond fe'i hystyrir os nad yw myfyriwr yn bodloni amodau cynnig penodol;
- **Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Huddersfield** – nid ar gyfer fferylliaeth, oherwydd bod angen pynciau penodol eraill;
- **Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Leeds** – nid ar gyfer y cyrsiau a ganlyn: Celfyddydau, Dyniaethau a Diwylliannau; yr Amgylchedd; Gwyddorau Biolegol; Deintyddiaeth, Seicoleg; Gwyddorau Mathemategol a Ffisegol, yr Ysgol Fusnes (mae adrannau eraill yn derbyn rhan o gymhwyster Bagloriaeth Cymru). Nid ystyrir bod y THS mor drylwyr yn academaidd â chymwysterau Safon Uwch. Fe'i hystyrir yn debycach i'r CPE, ac nid yw llawer o ysgolion yn gwneud cynigion gwahaniaethol ar sail y CPE;
- **Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Lerpwl** – nid ar gyfer meddygaeth, deintyddiaeth na milfeddygaeth. Mewn nifer fechan o feysydd heb ofynion pwnc, gall adrannau nodi y dylid cael y radd uchaf yn y THS, felly byddai cynnig o ABB yn golygu bod yn rhaid cael gradd A yn y THS;
- **Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Nottingham** – nid oedd yn nodi pa adrannau nad oeddent yn derbyn y THS, ond nodwyd pryderon ynghylch pa mor drylwyr oedd y cymhwyster.

Nododd **aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Caeredin**, er bod pob adran yn derbyn y THS, nad oedd pob un yn ei derbyn ar yr un sail â chymhwyster Safon Uwch. Nododd **aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Warwick** fod gofynion Safon Uwch yn cael eu gostwng un radd os yw myfyriwr yn llwyddo i gael gradd C yn y THS.

## Y rhai nad ydynt yn defnyddio'r THS yn eu cynigion

Wrth egluro pam nad yw'r THS yn rhan o gynigion, dywedodd **aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Caergrawnt** fod y brifysgol yn gwerthfawrogi'r sgiliau a ddatblygir fel rhan o'r THS ond bod cynigion fel arfer yn amodol ar dri phwnc Safon Uwch a astudir fel opsiynau o fewn y cymhwyster cyffredinol. Nododd yr ymateb fod colegau'r brifysgol yn anelu at gynnig lle i'r ymgeiswyr sydd â'r gallu academaidd a'r potensial gorau i lwyddo ar y cyrsiau y maent yn eu cynnig. Nodwyd bod y colegau hyn yn canfod, yn y rhan fwyaf o achosion, mai'r Safon Uwch (neu gymhwyster cyfwerth) yw'r paratoad mwyaf priodol ar gyfer eu cyrsiau. Maent yn ystyried elfen Prosiect Unigol y dystysgrif yn yr un modd â'r CPE. Fodd bynnag, at eu dibenion nhw, yn y mwyafrif llethol o achosion caiff y saith sgil a ddatblygir o fewn y THS eu dangos yn y modd mwyaf effeithiol yn y tri chanlyniad Safon Uwch y byddent yn disgwyl i bob ymgeisydd yng Nghymru eu cyflawni fel isafswm. Fodd bynnag, yn achos yr ymgeiswyr hynny sy'n cyflawni'r THS ynghyd â thri chanlyniad Safon Uwch neu fwy, maent yn cadw'r hawl i wneud cynnig yn amodol ar y dystysgrif yn ychwanegol at y tri chanlyniad Safon Uwch os ydynt o'r farn bod y THS yn berthnasol i'r cwrs arfaethedig.

Nododd yr ymateb gan **aelod unigol o staff Goldsmiths, Prifysgol Llundain** nad yw Bagloriaeth Cymru yn angenrheidiol ar gyfer cynigion gan y coleg, ond fe'i hystyrir fel rhan o'r proffil academaidd cyffredinol.

## Yr effaith ar fyfyrwyr

Holodd yr arolwg a oedd prifysgolion wedi nodi unrhyw effaith amlwg gan gymhwyster Bagloriaeth Cymru ar bynciau academaidd eraill. Ymatebodd **aelodau unigol o staff naw sefydliad** i'r cwestiwn hwn ac roedd y sylwadau'n gadarnhaol ar y cyfan, er y cafwyd rhai sylwadau negyddol hefyd.

**Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol De Cymru:** mae elfennau o'r THS sy'n helpu i baratoi'n dda ar gyfer y brifysgol. Y Prosiect Unigol sydd agosaf at y math o waith y bydd myfyriwr yn ei wneud yn y brifysgol. Rhoddir hyfforddiant i fyfyrwyr mewn ymchwil a moeseg (er eu bod yn dweud y gallai hyn fod yn llawer gwell). Hefyd, gall Bagloriaeth Cymru helpu myfyrwyr i ganolbwyntio ar agweddau ar eu datblygiad personol na fyddent fel arall yn eu trafod. Roedd yr ymateb hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y prosiect unigol o ran pontio i'r brifysgol. Nodwyd bod myfyrwyr yn dysgu sut i astudio'n annibynnol ac nid yw pynciau eraill yn eu herio yn yr un ffordd.

**Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam**: mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster mwy cynhwysfawr sy'n galluogi myfyrwyr i wella eu sgiliau mewn ystod o feysydd ac nid dim ond un pwnc academaidd.

Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol **Southampton**: mae'r prosiect unigol yn fuddiol wrth baratoi ar gyfer astudio mewn prifysgol a bod elfennau ohono yn debyg i gymhwyster y prosiect estynedig. Ceir awgrym y gallai cael dim ond dau gymhwyster Safon Uwch yn ogystal â'r THS fod yn anfantais bosibl a allai gyfyngu ar ehangder yr astudiaethau.

**Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Bangor:** mae astudio Bagloriaeth Cymru wedi gostwng nifer y pynciau Safon Uwch y mae rhai myfyrwyr o Gymru yn eu hastudio i ddau.

**Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Caerdydd**: nid yw myfyrwyr sydd â dau gymhwyster Safon Uwch a'r THS mor barod ar gyfer y brifysgol â'u cyfoedion sydd â thri chymhwyster Safon Uwch, a'u bod yn fwy tebygol o gael trafferthion yn eu hastudiaethau. Nododd yr ymateb na all y THS gymryd lle cymhwyster Safon Uwch – mae'n anfantais i fyfyrwyr o Gymru o'u cymharu â'u cyfoedion yn Lloegr. Nodwyd na all Bagloriaeth Cymru gymryd lle cymhwyster Safon Uwch llawn, ac ni ddylid ei ystyried felly.

**Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Caerdydd**: mae myfyrwyr sy'n dewis astudio dim ond dau gwrs Safon Uwch ochr yn ochr â Bagloriaeth Cymru yn tueddu i fod yn amlwg yn wannach na'r rhai sy'n astudio tri phwnc Safon Uwch ochr yn ochr â'r Fagloriaeth, ac yn wannach na myfyrwyr o Loegr sy'n astudio tri phwnc Safon Uwch.

## Sylwadau eraill

Roedd y sylwadau eraill a ddaeth i law fel a ganlyn:

**Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol De Cymru**: maent yn gyffredinol yn gefnogol o gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, roedd ganddynt bryderon ynghylch y potensial am brofiad anghyson i fyfyrwyr sy'n effeithio ar ganfyddiadau o werth Bagloriaeth Cymru ac sydd o bosibl yn effeithio ar berfformiad.

**Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Abertawe:** roedd y brifysgol wedi sylwi ar gynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio dau bwnc Safon Uwch ochr yn ochr â Bagloriaeth Cymru, ac y gallai hyn gael effaith negyddol ar eu cyflogaeth yn y dyfodol.

**Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Bryste**: un o fanteision Bagloriaeth Cymru yw bod y myfyrwyr yn trafod pwnc yn fanylach.

Hefyd, cafwyd **ymateb dienw** gan uwch academydd o un o **sefydliadau Cymru** a oedd yn nodi bod myfyrwyr Bagloriaeth Cymru yn credu eu bod yn deall dulliau ymchwil yn well nag y maent yn eu deall mewn gwirionedd. Mae'r ymateb hwn yn awgrymu bod y Fagloriaeth yn ymddangos fel petai'n cyfleu gwybodaeth arwynebol ac annibynadwy. Mae'r uwch academydd yn mynd ymlaen i ddweud y byddai'n well ganddo fod ei adran yn rhoi'r gorau i wneud cynigion sy'n cynnwys Bagloriaeth Cymru, ond fel sefydliad yng Nghymru mae pwysau gwleidyddol sylweddol ar staff i dderbyn y cymhwyster er gwaethaf eu barn academaidd.

**Aelod unigol o staff ym Mhrifysgol Caergrawnt**: byddai'n pryderu pe bai gofynion y cwricwlwm yn golygu bod myfyrwyr yn cael eu cyfyngu i astudio un neu ddau o bynciau Safon Uwch yn ogystal â'r THS, oherwydd bydd gan yr ymgeiswyr cryfaf i Brifysgol Caergrawnt dri neu bedwar cymhwyster Safon Uwch perthnasol a/neu dechnegol (yn enwedig pynciau sydd yn gyffredinol yn galw am gymhwyster Mathemateg Bellach). Felly, hoffai'r brifysgol i holl fyfyrwyr Cymru gael yr opsiwn o drafod yn realistig pa lwybr cwricwlaidd sy'n briodol iddynt wrth ddechrau eu hastudiaethau ôl-16. Y peth pwysig yw y dylai'r llwybr fod yn addas i'r myfyriwr, yn enwedig o gofio dewis prifysgol y myfyriwr a/neu ei ddyheadau o ran cyflogaeth.

**Prifysgol Caerdydd yn ei hymateb sefydliadol:** a ddywedodd fod yr adborth gan gydweithwyr academaidd yn nodi mai'r arwyddion cynnar yw bod elfen prosiect unigol Bagloriaeth Cymru o fudd arbennig, gan roi i fyfyrwyr y sgiliau ymchwil ac astudio unigol y mae eu hangen ar gyfer astudio ar lefel gradd. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod myfyrwyr yn dueddol o wneud yn dda ym Magloriaeth Cymru hyd yn oed os ydynt yn cael trafferth yn eu Safon Uwch, ac na fyddai'n anarferol i Fagloriaeth Cymru godi tariff ymgeisydd i ganiatáu mynediad. Hefyd, nodwyd bod pryder wedi'i fynegi y gallai ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion gwblhau Bagloriaeth Cymru eu rhoi o dan anfantais o'i gymharu ag ymgeiswyr o rannau eraill o'r DU, a all ddewis canolbwyntio ar dri Safon Uwch, gan esbonio bod hyn yn gyfwerth â llwyth gwaith pedwar Safon Uwch.

# Atodiad A – Rhestr o'r prifysgolion ble roedd yr ymatebwyr unigol yn gweithio

- Prifysgol De Cymru (dau ymateb)
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Cofentri
- Coleg y Brenin, Llundain
- Prifysgol Caer-wynt
- Prifysgol Caerfaddon
- Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Birmingham
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol St Andrews
- Prifysgol Gorllewin Lloegr, Bryste
- Prifysgol Southampton
- Prifysgol Caerefrog
- Prifysgol Warwick
- Prifysgol Sheffield
- Prifysgol Caerdydd (dau ymateb)
- Prifysgol y Drindod Leeds
- Ysgol Economeg Llundain
- Queen Mary, Prifysgol Llundain
- Prifysgol Huddersfield
- Royal Holloway, Prifysgol Llundain
- Prifysgol Caeredin
- Prifysgol Bryste
- Goldsmiths, Prifysgol Llundain
- Prifysgol Leeds
- Dienw
- Prifysgol Lerpwl
- Prifysgol Strathclyde
- Prifysgol Caergrawnt
- Prifysgol Plymouth
- Prifysgol Nottingham

Dylid nodi, ac eithrio un ymateb sefydliadol gan Brifysgol Caerdydd, fod yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg gan aelodau unigol o staff yn y prifysgolion hynny ac nid yw'r safbwyntiau a fynegwyd yn adlewyrchu barn swyddogol y sefydliadau hynny.

Mae'r holl dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i ymgynghoriad llawn y Pwyllgor ar gael ar dudalen yr ymchwiliad ar y we. Ni chafwyd unrhyw ymatebion ffurfiol gan brifysgolion na'u cyrff ambarél cynrychioladol.